# YR ATODLEN

## Anheddau cysylltiedig â swydd

### Anheddau sydd wedi eu darparu am resymau penodedig

**1.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), mae annedd yn gysylltiedig â swydd ar gyfer person os yw wedi ei darparu iddo oherwydd ei gyflogaeth, neu i'w briod neu bartner sifil oherwydd ei gyflogaeth yntau, mewn unrhyw un o'r achosion a ganlyn—

(a) pan fo'n angenrheidiol i'r cyflogai breswylio yn yr annedd honno er mwyn i ddyletswyddau'r gyflogaeth gael eu cyflawni'n briodol;

(b) pan fo'r annedd wedi ei darparu er mwyn i ddyletswyddau'r gyflogaeth gael eu cyflawni'n well, a honno'n un o'r mathau o gyflogaeth lle y mae'n arferol i gyflogwyr ddarparu anheddau ar gyfer cyflogeion; neu

(c) pan fo, oherwydd bygythiad arbennig i ddiogelwch y cyflogai, trefniadau arbennig mewn grym, a bod y cyflogai'n preswylio yn yr annedd fel rhan o'r trefniadau hynny.

(2) Os yw'r annedd wedi ei darparu gan gwmni a bod y cyflogai yn gyfarwyddwr y cwmni hwnnw neu gwmni cysylltiedig, nid yw is-baragraff (1)(a) nac (1)(b) yn gymwys oni bai—

(a) bod y gyflogaeth yn un fel cyfarwyddwr sy'n gweithio'n llawn amser;

(b) bod y cwmni yn un nad yw'n gwneud elw, hynny yw, nid yw'n cynnal masnach, ac nid yw ei swyddogaethau, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn golygu dal buddsoddiadau neu eiddo arall; neu

(c) bod y cwmni wedi ei sefydlu at ddibenion elusennol yn unig.